

Cofnodion cyfarfod rhif 79 Pwyllgor Cyngori Cymru a gynhaliwyd drwy 'Teams' ar 16 Rhagfyr 2020

Yn bresennol

Hywel Wiliam	Y Cadeirydd
Andrew Board	Aelod
Peter Trott	Aelod
Robert Andrews	Aelod
Ruth McElroy	Aelod

Hefyd yn bresennol

David Jones	Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom
Aled Eirug	Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Sian Phipps	(Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau)
Katie Pettifer	Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, Ofcom
Emma McFadyen	Pennaeth Polisi Cyhoeddus (Gwledydd)
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru
Elinor Williams	Pennaeth Materion Rheoleiddio, Ofcom Cymru
Meleri Evans	Rheolwr Materion Rheoleiddio, Ofcom Cymru
Liz Nash	Cynorthwy-ydd Materion Rheoleiddio, Ofcom Cymru

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

Ymddiheuriadau

Rem Noormohamed	Aelod
-----------------	-------

Eitemau ar yr Agenda	Gweithredu
Cyflwyniad 1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 79 Pwyllgor Cyngori Cymru (PCC).	
Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar 2. Dywedodd David Jones ei fod wedi cael ei benodi i Fwrdd Ofwat. Dywedodd Hywel Wiliam y bydd yn gweithio gyda'r Sefydliad Materion Cymreig ar yr Archwiliad Cyfryngau (wedi'i gymeradwyo gan Ofcom).	
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2020 a materion yn codi – Cofnodion PCC 78(3) 3. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2020 wedi cael eu dosbarthu'n flaenorol i'r Aelodau a chafodd y newidiadau angenrheidiol eu gwneud felly cawsant eu CYMERADWYO fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Materion yn codi/Camau gweithredu heb eu cyflawni- <ul style="list-style-type: none">Cafwyd ymateb gan yr Arglwydd Burns i lythyr Pwyllgor Cyngori Cymru ynghylch y Chwe Gwlad.	

<ul style="list-style-type: none"> • Cofnod 3 – Gweledd Pwyllgor Cyngori Cymru – gwaith ar y gweill. CAM GWEITHREDU – PWYLLGOR CYNGHORI CYMRU • Cofnod 11 – BBC Studios – Aelodau i gael trafodaeth bellach â thîm prosiect Ofcom. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru. • Gofynnodd y Pwyllgor am gael gweld yr ymatebion i'r ymgynghoriad – Ofcom i ddsbarthu dolen i'r wefan pan fydd ar gael yn y flwyddyn newydd. • Cofnod 16 – Niwed Ar-lein. Roedd Llywodraeth y DU wedi cadarnhau penodi Ofcom yn rheoleiddwr ar 16.12.20. Ofcom i gynghori pa lwyfannau rhannu fideos (os o gwbl) sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru 	<p>PCC</p> <p>EW</p> <p>EW/EMcF</p> <p>EM</p>
<p>Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar</p> <p>4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Presenoldeb yn Hyb Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru. Trafodaeth dda. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i'r diffyg ymwybyddiaeth ynghylch diffodd PSTN. • Bod yn bresennol yng nghyfarfod Cadeiryddion y Pwyllgorau Cyngori gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Ofcom. Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys 5G, darlledu, Niwed Ar-lein a gofynion staffio ehangach yn Ofcom pan fydd dyletswyddau newydd yn cael eu rhoi ar waith. • Wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad RTS – cyfweiliad Huw Thomas (BBC Cymru) gyda Rhodri Williams, Cadeirydd, S4C. • Wedi bod yn nigwyddiad bwrdd crwn Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau ynghylch sut mae oedolion a phobl ifanc yn defnyddio newyddion. • Wedi bod mewn cyfarfod diweddar cyffredinol gyda BBC Cymru gyda Chyfarwyddwr Ofcom Cymru. • Wedi bod mewn digwyddiad rhithiol Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr a gynhaliwyd gan Ofcom Cymru. Llongyfarchodd y tîm a Ruth McElroy (am gadeirio) ar ddigwyddiad rhagorol. Ofcom Cymru i ddsbarthu'r recordiad o'r digwyddiad i'r Aelodau. • Wedi bod mewn digwyddiad bwrdd crwn rhithiol Channel 4. 	<p>EW</p>
<p>Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar</p> <p>5. Rhoddodd yr Aelod Bwrdd ar ran Cymru ddiweddariad llafar llawn a chrynodeb o bynciau allweddol dros y misoedd diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llai o gyllid gan y Llywodraeth ar gyfer cysylltedd ffeibr; • Y Post Brenhinol – pwysau parhaus; • Arwerthiant sbectrwm ddechrau 2021; • Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus – trafodaethau parhaus â darlledwyr; • Radio a DAB; • Niwed Ar-lein – ymgymeriad enfawr ar gyfer Ofcom; • Amrywiaeth a Chynhwysiant; • Bil Diogelwch Telegyfathrebiadau (Cyflwynodd Aelod y Bwrdd dros Gymru sleidiau yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol). 	
<p>Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom</p> <p>6. Roedd Aelod Cymru o'r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi dosbarthu papur diweddar. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:</p>	

<ul style="list-style-type: none"> Niwed Ar-lein – yr effaith ar Ofcom a’i ofynion staffio ychwanegol tua 300 a mwy. Mae Aelod Cymru o’r Bwrdd Cynnwys yn awyddus i swyddfa Caerdydd gael ei hystyried fel lleoliad delfrydol ar gyfer lleoliadau yn y dyfodol. Dywedodd Cyfarwyddwr Cymru fod trafodaethau mewnol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ynghylch effaith cyfrifoldebau newydd Ofcom a’r strategaeth leoli arfaethedig. Bwriedir cael rhagor o adnoddau yn swyddfa Caerdydd. Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – roedd yr adborth a gafwyd yn golygu bod yr adroddiad yn fwy radical na’r disgwyl. Roedd teimlad bod cyfle da i’r Pwyllgor Cyngori ddylanwadu ar y syniadau yn y maes hwn a dylai ystyried y ffordd orau o helpu i ‘aildychmygu’ y dirwedd ar gyfer cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, yn y cyd-destun cyfredol ac yng nghyd-destun natur PSM yn y dyfodol hy yr hyn y dylai PSM ei gyflawni, sut dylid ei gyflawni a’i ariannu, a pha adnoddau rheoleiddio a pholisi a allai fod eu hangen yn y dyfodol. Cyhoeddi adroddiad blynyddol Ofcom ar Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal mewn Teledu a Radio. Hoffai’r Aelod dros Gymru gynnal trafodaeth ddilynol gyda chydweithwyr yn Ofcom i drafod yn fanylach, yn enwedig cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig, anabledd ac amrywiadau daearyddol ymysg uwch reolwyr. Ofcom Cymru i drefnu hyn - CAM GWEITHREDU. Tynnodd Aelod sylw at lansiad arfaethedig adroddiad IWA a oedd yn edrych ar amrywiaeth ‘Dyfodol Gwaith Sgrin’ ar 11 Ionawr 2021. Byddai’r manylion yn cael eu rhannu â’r Aelodau. BBC Studios - Mae’r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o BBC Studios yn dod i ben yr wythnos nesaf ac mae’n canolbwyntio ar y rhyngweithio rhwng BBC Studios a Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC. Adroddiad Ofcom ar y BBC – mewn perthynas â’r Gwledydd, roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ‘bryderon ynghylch tryloywder buddsoddiad, strategaeth a pherfformiad y BBC yn y gwledydd a’r rhanbarthau. Mae Ofcom yn annog y BBC i fod yn fwy eang yn ei adroddiadau yma, ac yn benodol wrth fynegi ei strategaeth ar gyfer y gwledydd a’r rhanbarthau yn y dyfodol. Efallai y bydd Aelodau’r Pwyllgor yn dymuno dangos diddordeb mewn mynd ar drywydd hyn. Dywedodd yr Aelod dros Gymru nad oedd wedi bod mewn cyfarfodydd diweddar gyda darlledwyr yng Nghymru gyda Chyfarwyddwr Cymru a chroesawodd y cyfle i fynd i unrhyw gyfarfodydd ffurfiol yn y dyfodol gyda darlledwyr, cynhyrchwyr annibynnol neu wylwyr/gwrandawyr a drefnwyd drwy Ofcom. <p>7. Cafwyd trafodaeth ar Adroddiad diweddar Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru) a oedd yn cyfeirio at Ofcom. Awgrymodd yr Aelod dros Gymru y dylid gwahodd yr awduron i annerch un o gyfarfodydd Pwyllgor Cyngori Cymru yn y dyfodol. Ofcom Cymru i drefnu hyn - CAM GWEITHREDU.</p>	<p>Ofcom Cymru</p> <p>RMcE</p> <p>PCC</p> <p>EM/EW</p>
<p>Adroddiad – Polisi Cyhoeddus</p> <p>8. Roedd Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus Ofcom eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddar yn amlinellu datblygiadau allweddol Llywodraeth y DU a’r Senedd ers y cyfarfod diwethaf. Yn ogystal â’r pynciau a drafodwyd eisoes gan Aelodau, roedd yr uchafbwyntiau ychwanegol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus – Cafodd Melanie Dawes ei chyfweld ar Radio 4 a rhoddodd Ofcom dystiolaeth i Bwyllgor Dethol yr 	

<p>Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Senedd y DU. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2021.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar hyn o bryd mae Ofcom wrthi'n rhoi mewnbwn dwys i gynigion Llywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer rheoleiddio Niwed Ar-lein. Disgwylir i'r Llywodraeth gyhoeddi ei hymateb llawn i'r Papur Gwyn ar Niwed Ar-lein eleni, ond hyd yma, nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer ei gyhoeddi. • Daeth Ofcom yn rheoleiddiwr llwyfannau rhannu fideos yn y DU ar 1 Tachwedd 2020. Ar ôl Brexit, mae awdurdodaeth Ofcom dros y drefn llwyfannau rhannu fideos yn weddol debyg, hyd nes y daw'r fframwaith rheoleiddio Niwed Ar-lein newydd i rym. • Cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei gyngor i'r llywodraeth ar drefn marchnadoedd digidol yn y dyfodol ar 8 Rhagfyr ac mae Ofcom wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Tasglu Marchnadoedd Digidol. • Newid yn lefel yr uchelgais i gyflwyno ffeibr – Llywodraeth y DU i ddarparu £1.2 bn yn yr adolygiad hwn o wariant. 	
<p>Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau</p> <p>9. Roedd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddarar ar weithgareddau'r Panel ers y cyfarfod diwethaf. Roedd hi hefyd wedi cadeirio cyfarfod Hyb Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru yn ddiweddar, a dywedodd fod y pynciau canlynol wedi cael eu trafod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Panel yn trafod sut i fynd ati i ddarparu hyfforddiant a sgiliau ym maes llythrennedd Digidol. • Bydd y Panel yn edrych ar gysylltedd digidol yn ystod y pandemig. • Ymchwil i sut mae defnyddwyr yn defnyddio sianeli cyfathrebu presennol. • Ymchwil i sut mae pobl agored i niwed yn defnyddio'r gwasanaeth post, gan gynnwys cyfathrebu ynghylch sut darperir ar gyfer pobl mewn cartrefi gofal a llety gwarchod. • Cyhoeddwyd yr ymchwil ddiweddar i 'sgamiau' ar wefan y Panel. Cytunodd yr Aelod dros Gymru i dynnu sylw'r Aelodau at unrhyw sôn penodol am Gymru yn yr adroddiad. Roedd un o aelodau Pwyllgor Cyngori Cymru hefyd wedi cynnig ymchwilio os yw'r Bil Niwed Ar-lein yn cyfeirio'n benodol at sgamiau gan ei fod yn ymdrin â nifer o niwed posibl eraill. • Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ac Ofcom Cymru i gynnal digwyddiad ar y cyd yn 2021. <p>10. Bydd Hyb nesaf Cymru yn cael ei gynnal ddydd Mercher 3 Chwefror 2021 a bydd yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu a dyledion defnyddwyr yn y sector cyfathrebiadau.</p>	<p>SP</p> <p>PT</p>
<p>Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru</p> <p>11. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddarar a rannwyd yn flaenorol. Roedd y Pwyllgor eisoes wedi rhoi sylw i'r rhan fwyaf o bynciau. Roedd y sylwadau ychwanegol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru, y Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth a Phrif Weithredwr Ofcom. Trafodwyd amrywiol bynciau mewn cyfarfod bywiog. Roedd y Prif Weinidog wedi croesawu'r cyfle i gael perthynas dda barhaus ag Ofcom. 	<p>EM</p>

<ul style="list-style-type: none"> • BBC Studios – Cyfarwyddwr Cymru i drefnu trafodaeth gyda’r tîm a’r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru. • Tŷ’r Cyffredin, y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, Ofcom Cymru wedi rhoi tystiolaeth. • Sylw newyddion – trafodaethau parhaus ar gywirdeb. Awgrymodd yr aelodau drefnu cyfarfod gyda’r Athro Stephen Cushion. Ofcom Cymru i hwyluso hyn yn y flwyddyn newydd. Mae Ofcom hefyd yn gwneud llawer iawn o waith ar amrywiaeth yn fewnol ar hyn o bryd. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru. • Trafododd yr aelodau’r ffyrdd gorau o ryngweithio’n llawnach â rhanddeiliaid (yn ffurfiol neu fel arall). Cyfarwyddwr Cymru i drafod â’r tîm amrywiaeth y ffordd orau o symud ymlaen. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru. • Roedd y tîm wedi cael ei ganmol gan Gomisiynydd y Gymraeg am adroddiad blynyddol Ofcom ond mae’n dal i wynebu heriau o ran trefnu digwyddiadau ar-lein i randdeiliaid er mwyn bodloni’r Safonau. Mae trafodaethau’n mynd rhagddynt yn fewnol. • Adroddiad Cysylltu’r Gwledydd i’w gyhoeddi ar 17 Rhagfyr a fydd yn denu llawer o ddiddordeb gan randdeiliaid a’r cyfryngau. 	<p>EW</p> <p>EM</p> <p>EM</p>
<p>Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir</p> <p>12. Roedd un o gydweithwyr Ofcom wedi ymuno â’r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad cynhwysfawr ar y sefyllfa ddiweddaraf a’r cynnydd hyd yma o ran y Rhwydwaith Cefn Gwlad a Rennir. Bu oedi oherwydd Brexit a bydd adroddiad ar gynnydd y pandemig yn cael ei gyflwyno’n flynyddol yn Adroddiad Cysylltu’r Gwledydd Ofcom; fodd bynnag, nodwyd bod cwmnïau rhwydweithiau symudol wedi dweud bod y cyfyngiadau presennol wedi arwain at rai problemau ac oedi.</p> <p>13. Mae ymgysylltu’n digwydd yn awr gyda’r gweinyddiaethau datganoledig ac mae gweithgorau wedi cael eu sefydlu ym mhob Gwlad.</p> <p>14. Trafododd yr aelodau oblygiadau’r cynlluniau ac roeddent yn teimlo bod hyn yn gadarnhaol i Gymru ac y dylai wella cysylltedd gwledig i Gymru ac mae’r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld newidiadau cadarnhaol y flwyddyn nesaf.</p>	
<p>Bauer Media Group</p> <p>15. Croesawodd y Cadeirydd Graham Bryce, y Rheolwr Gyfarwyddwr i’r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth lawn ynghylch Bauer yn prynu Swansea Sound yn ddiweddar. Nododd yr aelodau fod gwrando digidol wedi cynyddu’n sylweddol ers ehangu ardal y gwrandawyr i gynnwys Bae Caerdydd a bod y gwrandawyr yn gyffredinol wedi bod yn gadarnhaol gan fod yr orsaf wedi cadw ac ehangu cynnwys lleol, gan gynnwys cynnwys Cymraeg. Roedd yr aelodau’n cydnabod bod hon yn stori newyddion da er ei bod hi’n chwith gweld colli enw Swansea Sound.</p>	
<p>Spectrum Internet</p> <p>16. Croesawodd y Cadeirydd Claire Brown, Cyfarwyddwr Gwerthu a Marchnata i’r cyfarfod a roddodd gyflwyniad manwl a chynhwysfawr i’r Pwyllgor ar ddatblygiadau diweddaraf y cwmni a rhannodd gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Croesawodd yr aelodau’r diweddiariad a dymunodd yn dda i’r cwmni yn ei heriau i’r dyfodol. Cytunodd CB i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ac estynnodd wahoddiad i ymweld â Chanolfan Data’r Genhedlaeth Nesaf unrhyw bryd a chynigodd astudiaethau achos o’u gwaith os byddai hynny o gymorth.</p>	

<p>Y Dirwedd Wleidyddol yng Nghymru ac Etholiadau'r Senedd 2021</p> <p>17. Rhoddodd un o gydweithwyr Ofcom Cymru gyflwyniad manwl ar y dirwedd wleidyddol yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys rhagfynegiadau ar gyfer etholiad 2021. Roedd yr aelodau'n croesawu'r cynnwys a oedd yn rhoi rhywbeth i gnoi cil arno. Bydd Ofcom Cymru yn ymgysylltu â chynrychiolwyr gwleidyddol yn ystod y misoedd nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol Ofcom a bydd yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.</p>	ME
<p>Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Cymru 2020</p> <p>18. Rhoddodd un o gydweithwyr Ofcom Cymru grynodedb o'r prif bwyntiau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Cymru eleni. Mae'r adroddiad yn cael ei barchu a'i groesawu'n fawr gan ein rhanddeiliaid yng Nghymru ac fe'i defnyddir yn rheolaidd fel arf cyfeirio drwy gydol y flwyddyn. Trafododd yr aelodau rai o'r prif ganfyddiadau gan ddiolch i Ofcom Cymru am gynhyrchu adroddiad rhagorol.</p>	
<p>Yr wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr</p> <p>Cynnwys NODWYD.</p>	
<p>Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod</p> <p>19. Ers y cyfarfod diwethaf roedd y Cadeirydd wedi dyrannu Aelodau penodol i gadw golwg ar ymgynghoriadau penodol. Rhoddodd pob Aelod adborth ar eu canfyddiadau gan gytuno i ddsbarthu unrhyw nodiadau ychwanegol nad oeddent wedi'u darparu'n flaenorol.</p> <p>20. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau ar yr ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gwaith y flwyddyn nesaf a chytunodd i drafod yn y flwyddyn i ddod sut gall y Pwyllgor gefnogi Ofcom i gyflawni ei flaenoriaethau.</p> <p>21. Cafwyd trafodaeth faith ar Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC. O ran amrywiaeth, teimlai'r Aelodau nad oedd llawer wedi newid ers y blynyddoedd blaenorol ac roeddent yn meddwl tybed sut byddai modd helpu i symud pethau ymlaen. Cytunodd y Pwyllgor y byddai Ofcom Cymru yn trefnu i gwrdd â'r tîm ar ôl y Nadolig ac y byddai'r Bwrdd ac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yn codi hyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. CAM GWEITHREDU</p> <p>22. Trafodwyd diffyg cywirdeb adroddiadau hefyd, a theimlai'r Pwyllgor nad yw pethau'n newid yn ddigon cyflym ac mae angen rhoi mwy o bwysau ar y BBC. Awgrymwyd y dylid gwahodd Rhodri Talfan Davies, fel Cyfarwyddwr y Cenhedloedd newydd ar gyfer y BBC, i gyfarfod yn y dyfodol. Yn y cyfamser, dylai Aelodau ystyried atebion posibl y gellir eu trafod yn nes ymlaen. CAM GWEITHREDU - Ofcom Cymru</p>	<p>RA/PT/HW</p> <p>EM/DJ/AE</p> <p>EM/EW</p>
<p>Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol</p> <p>NODYN newid dyddiadau cyfarfodydd 2021 (cadarnhawyd):</p> <p>9^{fed} Mawrth o 25^{ain} Mawrth</p> <p>24^{ain} Tachwedd o 25^{ain} Tachwedd</p>	
<p>Eitemau er gwybodaeth – NODWYD</p>	